Y Gwirfoddolwr yn Sir Ddinbych

Mehefin 2011

Rhaglen Lleisiau Lleol Cronfa Loteri Fawr

Cronfa Ariannu Newydd Lleisiau Lleol

Hyd at £24,000 y flwyddyn am chwe blynedd

Grantiau ar gael i helpu pobl leol a grwpiau yn Sir Ddinbych i gael llais a fydd yn arwain at newid yn eu cymunedau gyda chefnogaeth gan GGGSDd, y Cyngor Sir, Bwrdd Iechyd, Heddlu, ayb

Eisiau rhagor o wybodaeth? Oes gennych chi brosiect mewn golwg sydd angen ei ariannu? Cysylltwch ag Emyr B Williams, Uwch Swyddog Datblygu CGGSDd (01824 702441) i weld os yw eich prosiect yn addas i'w ystyried i geisio am arian er lles eich cymuned.

Dyddiad cau ar gyfer derbyn Datganiadau o Ddiddordeb gan fudiadau sydd am gyflwyno Prosiectau
22 Gorffennaf 2011

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun
LL15 1AF

Ffôn: 01824 702441
Ffacs: 01824 705412

e.bost office@dvsc.co.uk
Gwefan www.dvsc.co.uk
Newvol - Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3132487
Elusen Gofrestredig 1054322

Prif Swyddog Gweithredol
John Watkin

www.dvsc.co.uk

PWY YDI PWY YN CGGSDd?

John Watkin - *Prif Swyddog Gweithredol*

Gareth Mawby *Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol*

Maggie Bradley *Swyddog Datblygu, Canolfan Gwirfoddoli - Porth Ymgysylltu*

Suzanne Bradley *Swyddog Cyswllt Trydydd Sector*

Sarah Caunt *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Carys Edwards *Clerc/Teipydd*

Jackie Evans *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Gerry Frobisher *Cyd-drefnydd Gwirfoddoli*

Lindsay Haveland *Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

Bronwen Isaac *Arolygwr Swyddfa*

Gaynor Jones *Trefnydd Y Ganolfan Gwirfoddoli*

Vera Jones *Gofalwraig*

Matthew Lee *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Lynn Mealings *Swyddog Mentrau Cymdeithasol*

Lilwen Roberts *Swyddog Gwybodaeth*

Sian Roberts *Cynorthwy-ydd Datblygu*

Jennifer Rowlands *Swyddog Cyswllt Busnes a'r Trydydd Sector*

Sharon Simon *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Angela Watt *Gweithiwr Datblygu Cymunedol*

Elfed Williams *Uwch Swyddog Eiriolaeth Pobl Hŷn*

Emyr B Williams Uwch*Swyddog Datblygu*

JoAnne Williamson *Cynorthwy-ydd Cyswllt Cefnogaeth*

———————————————————————

Fforwm Anabledd Dysgu Sir Ddinbych
Alan Benbow *Cydlynydd* 01824 707246
Jackie Evans *Gweinyddwr rhan amser*

———————————————————————

NEWCIS - (Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru)
Sir Ddinbych - Swyddfa'r Rhyl 01745 331181

Ann Shield *Cydlynydd Gwasanaethau Gofalwyr*, **Gundega Bushevitsa** *Swyddog Arriannol/ Gweinyddol,* **Iona Crompton** a **Kealie Jones** Mentor Cyfleoedd a Chyflogaeth Gofalwyr, **Kati Denton** *Gweinyddwr ,* **Carolyn Hilderbrandt,** *Gweithiwr Maes,* **Diana Owen** *a* ***Glain Jones*** *Swyddogion Asesu Anghenion Gofalwyr,* **Farrell Coleman** *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Sir y Fflint - Yr Wyddgrug 01352 744055

Claire Sullivan *Cydlynydd* **Garry Davies** *Hwylusydd Annibyniaeth a Lles Gofalwyr* **Helen Owen** Hwylusydd Cymunedol **Katy Harris** *Hwylusydd Gofal Cychwynnol* **Barry Martin** Gweinyddwr **Viv Brundell** ag **Elaine Jones** Gweinyddwyr Grantiau **Simone Percy** *Hwylusydd Cyfleon a Chyfranogaeth Gofalwyr i Gyflogaeth* **Jean Rodden** *Hwylusydd Gofalwyr i Ofal Iechyd Parhaus*

Lynn Mealings - Swyddog Mentrau Cymdeithasol CGGSDd

Fi yw Swyddog Mentrau Cymdeithasol sydd newydd fy mhenodi gan GGGSDd; Swydd newydd i mi a swydd newydd sbon i Sir Ddinbych. Mae'r swydd y gyntaf o amryw o benodiadau cyffelyb ar draws Gymru.

Pwy ydwyf i? Beth yw fy swydd? Sut gallaf helpu? Lle i ddod o hyd i mi? 'Rwyf wedi gweithio yn y sector fasnachol, sector gyhoeddus ac mewn addysg bellach; 'nawr 'rwyf yn y trydydd sector, yn cefnogi, hyrwyddo a datblygu menter gymdeithasol yn Sir Ddinbych.
Mae hyn yn golygu fy mod wedi bod yn gweithio mewn cyhoeddi, marchnata, lithograffeg, rheoli cyllid, rheoli prosiectau, graffeg a gwerthiant; hyfforddiant a gwerthuso a darpariaeth gwasanaeth sector gyhoeddus.
Mae gennyf ddealltwriaeth o reolaeth gyllidol, adnoddau dynol, cysylltiadau cyhoeddus, datblygiad strategol, goruchwyliaeth digwyddiadau / digwyddiadau cyhoeddus, cynllunio busnes, logisteg, cywiro diffygion, ymyriad cysyniadol a datblygiad mentrau bach a chanolig. Mae gennyf weledigaeth greadigol eang iawn gyda diddordeb arbennig mewn marchnata, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu.

'Rwy'n angerddol ynglyn â gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill; felly mentrau cymdeithasol yn fy hafan ysbrydol naturiol.
Mae hyn yn golygu cefnogi pobl / busnesau Sir Ddinbych i sefydlu ag i barhau i weithio drwy fenter gymdeithasol; yn creu mudiad / busnes sy'n lleol; yn cael ei redeg a'i reoli gan bobl / gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â'r fenter neu a gyflogir; fod gan y busnes ymarferion marchnata llwyddiannus ag yn gwarantu fod 50 % o leiaf o'r elw o'r fasnach yna'n mynd i fenter gymunedol leol.

Fe wnaf eich helpu i sefydlu, cael cyfansoddiad, trafod a strwythuro eich syniadau i gynllun gweithredu ymarferol, chwilio am gronfeydd ariannol, sicrhau hyfforddiant, recriwtio staff, datblygu cynlluniau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, datblygu gwefan, masnachu'n llwyddiannus, yn lleol mewn amgylchedd cynaliadwy. Efallai byddai gennych ddiddordeb hefyd mewn gwybod fy mod wedi sefydlu a rhedeg busnes bach preifat a menter fechan gyhoeddus. 'Roedd fy ymchwil ôl radd yn cynnwys datrys problemau cysyniadol, technoleg newydd ac ecoleg forol a gallaf olrhain fy llinach yng Ngogledd Cymru am dros fil o flynyddoedd!!

Byddaf yn gweithio yn swyddfeydd CGGSDd yn Y Rhyl ond bydd fy nghyfrifoldeb yn ymestyn ar draws Sir Ddinbych

Dyma fy manylion cyswllt :-
WI Canolfan Fusnes Morfa Clwyd
84 Marsh Road, Y Rhyl LL18 2AT
Ffôn: 01745 369 973
E.bost: lynn@dvsc.co.uk
Gwefan: www.dvsc.co.uk

RHAGLEN DYSGU CYMUNEDOL RHANBARTHOL

Cyrsiau i gyd yn **£20 y pen** os na nodir yn wahanol (Heb nawdd o'r Cynulliad byddai'r cyrsiau costio £100 yr un)

Bydd y rhaglen hyfforddiant ar y cyd llwyddiannus yma'n parhau yn ystod y misoedd nesaf. Bydd manylion llawn yn rhifyn mis Medi o'r Gwirfoddolwr ag ar wefan CGGSDd www.dvsc.co.uk

Oes gennych ddiddordeb yn eich treftadaeth leol?

A hoffech wybod mwy am ariannu prosiect treftadaeth?

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri yn cynnal dwy sesiwn a fydd yn eich cyflwyno i rai o'n rhaglenni grant ac yn rhoi cyngor ar gyflwyno ceisiadau.

14:00 - 16:00 Mehefin 21 - Canolfan Gymunedol Llanfwrog, Rhuthun LL15 1LE

10:00 - 12:00 Mehefin 22 - Galeri, Caernarfon LL55 1SQ

Os hoffech fynychu un o'r sesiynau, ebostiwch daniellew@hlf.org.uk erbyn **Dydd Gwener, Mehefin 17** i fwcio'ch lle.

Cyflwynir y sesiwn yn ddwyieithog gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Mae dau fan cyfarfod yn hollol hygyrch ond gadewch i ni wybod os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol.

Hyfforddiant NewLink Cymru

Ymwybyddiaeth Camddefnyddio Sylweddau Lefel 1

20fed & 21ain Mehefin 2011, Wrecsam, Gwirfoddol £140, Statudol £150

Ymwybyddiaeth Camddefnyddio Sylweddau Lefel 2

4ydd & 5ed Hydref 2011, Wrecsam, Gwirfoddol £155, Statudol £165

Os hoffech ragor o wybodaeth neu dderbyn copi o lyfryn hyfforddiant NewLink Cymru cysylltwch â: NewLink Cymru, Meridian Court, North Road, Caerdydd CF14 3BE

Ffôn: 02920 529002 Fax: 02920 619250
Ebost: training@newlinkwales.org.uk

Gwefan: www.newlinkwales.org.uk

Cyhoeddiad ar gynnydd yn yr isafswm cyflog

Bydd yr isafswm cyflog cenedlaethol i oedolion yn codi 15c yr awr, i £6.08, o 1 Hydref 2011 ymlaen. Bydd y cynnydd i rai 18 i 20 oed yn codi 6c, i £4.98, bydd rhai 16 i 17 oed yn gweld cynnydd o 4c i roi £3.68, a bydd yn codi 10c i brentisiaid a fydd yn cael £2.60.

Gweithgareddau Gofal Gwyrdd Sir Ddinbych

Mae'r bartneriaeth newydd yma rhwng Groundwork Gogledd Cymru a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych yn ymwneud â rhoi ar waith prosiectau amgylcheddol / cadwraeth ar draws y Sir. Mae hyn yn galluogi troseddwyr ifanc neu rai sydd mewn perygl o droseddu i gael cyfle i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned a dysgu sgiliau newydd yn y broses.
Bydd y prosiect yn helpu i ddod i'r afael ac eithrio cymdeithasol drwy ymglymiad â phobl sydd wedi'u heithrio o gymdeithas. Gwelir manteision pellach i'r rhai sy'n cymryd rhan drwy wella hunan hyder, cynyddu lles, gwell ddealltwriaeth am yr amgylchfyd meant yn byw neu'n gweithio ynddo a datblygiad ethos gwaith. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol cryfach i'r bobl hynny oedd, cyn hyn, yn anactif yn economaidd neu'n ynysig yn gymdeithasol am ba reswm bynnag.
Fel tîm mae gennym amrediad o sgiliau ac 'rydym yn awyddus i helpu grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol ac ysgolion ar draws y sir sydd angen cymorth gyda chynnal a chadw gerddi/daear, creu gardd cegin gynaliadwy, gwau helygen, gwaith adeiladu, sgiliau saer coed ayb. Ymgymerir â'r gwaith gennyf i - Sarah Freeman (Swyddog Prosiect) a Steve Lucas (Swyddog Prosiect Cynorthwyol) a grŵp bychan o bobl ifanc o dan oruchwyliaeth.
Am ragor o fanylion a gwybodaeth cysylltwch â Sarah Freeman ar 07714 310469
neu 01978 757524

GROUNDWORK NORTH WALES GOGLEDD CYMRU

Y Cod Casgliadau o Dŷ i Dŷ yn benllanw ymgynghoriad sector cyfan

Mae'r Sefydliad Codi Arian yn lansio ei God Ymarfer Codi Arian diwygiedig ar gyfer Casgliadau o Dŷ i Dŷ. Mae'r Cod wedi'i ddiwygio i gynnwys arweiniad mwy penodol a manwl ar gyfer y gwahanol fathau o gasgliadau a wneir. Yn ogystal â'r Cod, mae'r arweiniad cysylltiedig wedi'i greu i egluro'r gwahanol fathau o gasgliadau a all gael eu cynnal a chysylltiad y gwahanol bartïon â hwy. Mae'r arweiniad hefyd yn rhoi gwybodaeth am gasgliadau ffug ac awgrymiadau ar sut i osgoi rhoi iddynt. Am ragor o fanylion,

http://www.institute-of-fundraising.org.uk/Codes_and_regulation/Codes
(Ffynhonnell: E-frîff Sefydliad Codi Arian Cymru, Ebrill 11 a e.hysbys CGGC)

DYDDIAD I'CH DYDDIADUR -
Ffair Ariannu CGGSDd 2011 - Canolfan Nova, Prestatyn Dydd Mawrth, 18 Hydref, 2011 Manylion pellach yn y rhifyn nesaf

GWASANAETHAU YMARFEROL SYDD BOB AMSER AR GAEL Yn CGGSDd

ADNODDAU

- Teipio - £3.50 am ddalen A4
- Llungopïo - 5c am ddalen A4
- Gwasanaeth Talu Cyflogau - Cyfraddau cystadleuol iawn - cysylltwch â Gareth Mawby 01824 702441 am fanylion costau
- Cyfieithu - o £40.00 am 1,000 o eiriau
- Defnyddio'r Rhyngrwyd - am ddim
- Hurio offer - Byrddau Arddangos, siartiau fflip ayb,
- Hurio Ystafelloedd Cynhadledd / Pwyllgor - manylion ar dudalen 15
- Cylchlythyr pob dau fis
- Dosbarthu taflenni gyda'n cylchlythyr - cysylltwch â Lilwen Roberts 01824 702441 am fanylion costau

ARIANNU

- Cyngor a gwybodaeth
- Gwasanaeth Funderfinder

- Ffynonellau ariannol addas
- Cyngor ar ffynonellau a gwneud ceisiadau ariannol

HYFFORDDIANT

Cyrsiau Hyfforddiant / Seminarau Gwybodaeth, Cyfeirio at gyrsiau hyfforddiant ar gost resymol:-

- Cyfrifon (SORPS)
- Rheoli Gwirfoddolwyr
- Ariannu
- Sgiliau Pwyllgor
- Swyddogaeth Ymdiriedolwyr

AYB AYB AYB

CANOLFAN GWIRFODDOLI

- Cydweddu Gwirfoddolwyr a chyfleoedd gwirfoddoli o fewn mudiadau yn y Sir
- Gwirfoddolwyr y Mileniwm 16 - 25 mlwydd oed
- Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn Sir Ddinbych - o dan 16 mlwydd oed

A Ydych yn Cael Eich Gwasanaethu?

Yng nghyfarfod mis Ebrill o'r rhwydwaith sector gwirfoddol, a gynhaliwyd ar y cyd gan y Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc, gwrandawyd ar gyflwyniadau gan Rick Abbas (Uned Hawliau Lles) a Karen Beattie (Swyddog Cydraddoldeb) ar effaith y newidiadau i fudd-daliadau hawliau lles, a gweithrediad dyletswyddau cydraddoldeb.

'Roedd yn gyfarfod sobreiddiol gyda rhai mudiadau eisoes yn cofnodi pryder pobl wrth ganfod fod eu budd-daliadau wedi eu cwtogi neu eu newid. Mae copi o gyflwyniad Power Point Rick ar gael gan lindsay@dvsc.co.uk.

Cynhelir y cyfarfod ar y cyd nesaf **Dydd Iau, 14eg Gorffennaf** yn CGGSDd yn dechrau gyda choffi am 10.15 ac yn gorffen â chinio am 1.00pm. Penderfynwyd y dylai'r cyfarfod gynnwys cyfres o weithdai ynglyn â "pwy sy'n gwybod beth/pwy all helpu", a sut i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau sydd efallai'n ymosodol/neu'n isel eu hysbryd, yn ddiogel.

GRANTIAU I BROSIECTAU CYMUNEDOL

Gwahoddir Cynghorau Tref a Chymuned, elusennau cofrestredig, grwpiau cymunedol a gwirfoddol sy'n dymuno gwneud cais am gymorth ariannol tuag at brosiectau cyfalaf neu refeniw fydd yn cefnogi adfywiad economaidd neu gymdeithasol neu'n gwella amgylchedd Sir Ddinbych i fynegi eu diddordeb.

Bydd y ffurflenni ar gael o 27ain Mehefin ymlaen a rhaid eu dychwelyd erbyn 2il o Fedi 2011. Cysylltwch â:

Swyddog Cynnal Grantiau Cymunedol
Cyngor Sir Ddinbych, Yr Hen Garchar, 46 Stryd Clwyd, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1HP. Ffôn: 01824 708242

E-bost: cefnogi.cymorthdal@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Ch - Dd Mr. Lloyd FitzHugh, Uwch Siryf Clwyd; Mrs. Badland; Mr. Syd Badland, MBE; Mr. Trefor Jones, CBE, H.M. Arglwydd Raglaw Clwyd.

Syd Badland MBE

Llongyfarchiadau calonnog i Syd Badland, Trefnant a anrhydeddwyd gyda'r MBE mewn seremoni arbennig iawn yng Nghanolfan Gymunedol Rhuddlan, dydd Mercher 6ed Ebrill 2011. Nid oedd iechyd Syd yn caniatáu iddo deithio i Lundain felly daeth yr MBE ato ef. Anrhydeddwyd Syd am ei holl waith gwirfoddol gydag amrediad eang o fudiadau lleol dros gyfnod o flynyddoedd lawer.

Cymorth gyda Chymorth Rhodd, Rhoi drwy Gyflogres a Chymynroddion

Ym mis Ebrill cyhoeddodd y Canghellor y 'newidiadau mwyaf radical a hael i roi elusennol ers amser maith'. 'Roedd yn siarad am newidiadau i fecanwaith rhoi, treth effeithiol, yn cynnwys Cymorth Rhodd a Chymynroddion. Os nad yw eich mudiad wedi ymdopi â chymorth rhodd, cymynroddion a rhoi drwy gyflogres fe all Cymru'n Rhoi (Giving Wales) eich helpu. Am gopi o'r daflen isod a manylion pellach cysylltwch ag Eileen Kinsman, Swyddog Cymru'n Rhoi ar, 0800 2888 329, givingwales@wcva.org.uk

Cwrs Deall y Newidiadau i'r System Fudd-Daliadau

18fed Gorffenaf 2011 yn Llandudno

Nodau'r Cwrs

Mae newidiadau mawr yn cael eu gwneud i'r system Budd-daliadau Lles a fydd yn effeithio ar y mwyafrif o hawlwyr. Bydd gwneud yn siwr eich bod yn ymwybodol o ba newidiadau sydd eisoes wedi digwydd a beth sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol yn sicrhau y gallwch barhau i ddarparu cyngor a chymorth da. Bydd y cwrs yn nodi newidiadau diweddar a rhai sydd ar y gweill a'u heffaith ar hawlwyr, gan gyfeirio'n benodol at bobl anabl.

Mae'r cwrs wedi'i lunio ar gyfer

Unrhyw un sy'n gweithio mewn rôl gynorthwyol, gofal neu gynghorol ar ran oedolyn neu plentyn anabl. Mae'n gwrs ar lefel cyflwyniad ac wedi'i lunio i godi ymwybyddiaeth am fudd-daliadau ond ni fydd yn cynnwys unrhyw gyfrifo o fudd-daliadau.

Am ragor o fanylion cysylltwch ag Inacia Rodrigues, Gweinyddwr Hyfforddi,
Anabledd Dysgu Cymru, 41 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanishen, Caerdydd CF14 5GG Ffôn: 029 2068 1174 Ffacs: 029 2075 2149
training@learningdisabilitywales.org.uk

Cwrs Ymwybyddiaeth Ynni City & Guilds 6281-01 (6176-01 gynt)

Mae'r cwrs tri diwrnod (am ddim) wedi ei anelu'n arbennig i Weithwyr Iechyd Proffesiynol neu unrhyw Weithwyr Iechyd sy'n dymuno dysgu mwy am effeithloinrwydd ynni domestig, achos ag effaith tlodi ynni sy'n gysylltiedig â lles corfforol a meddyliol, ag sydd mewn sefyllfa i ddarparu cyngor ynni wyneb yn wyneb.

Dangosir i unigolion sy'n mynychu'r cwrs sut i adnabod arwyddion tlodi ynni a sut i roi cyngor i gleifion, eu hannog i ddeal sut mae newidiadau bychan yn gallu gwneud y cartref yn gynhesach a gwella iechyd heb gynyddu biliau ynni.

Gorffennaf 12, 13 & 14 yn Wrecsam Arholiad 20fed Gorffennaf
Am ragor o fanylion cysylltwch â Lynsey Thompson Lynsey.thompson@nea.org.uk **Ffôn: 01912615677**

Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru** bellach wedi lansio ymgynghoriad ar **Gynllun Cenedlaethol Datblygu'r Gweithlu ar gyfer Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru.**

Mae'r ddogfen hon, sy'n nodi cynllun hyfforddi ar gyfer gwaith ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru, wedi'i hanelu at bob lefel, sector, partner a rhanddeiliad ledled Cymru ac wedi'i datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda chefnogaeth Grŵp Cenedlaethol Datblygu'r Gweithlu ar gyfer Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru. Cafodd nifer o unigolion a thimau ar draws system iechyd y cyhoedd eu cyfweld, gan gynnwys cynrychiolwyr o WCVA a Lles Cymru, gan gyfrannu at y cam casglu gwybodaeth a helpodd i lunio nodau ac amcanion y cynllun.

Efallai y bydd ymagwedd y Cynllun tuag at y gweithlu ehangach o ddiddordeb penodol i'r rheini yn y trydydd sector. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y rheini sydd â rôl mewn gwella iechyd, diogelu iechyd a lleihau anghydraddoldebau ond na fyddai o reidrwydd yn ystyried eu hunain yn rhan o weithlu iechyd y cyhoedd/iechyd a lles. Gall unigolion o'r fath fod yn hynod gydnabyddedig ac yn cael eu gwobrwyo'n uchel yn ariannol, neu fel arall, gallant fod yn wirfoddolwyr di-dâl sy'n bwriadu gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn amlygu rôl y trydydd sector mewn iechyd cyhoeddus yn ogystal â sefydlu cynllun gweithredu cryf i wella integreiddio a mynediad at hyfforddi gweithlu.

Mae tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu sylwadau cyffredinol ar y cynllun ond maent hefyd wedi datblygu pro forma gyda phedwar cwestiwn allweddol y gellir ei lenwi a'i ddychwelyd i

Claire.Barley@wales.nhs.uk

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ddydd Gwener 12 Awst 2011

Fy Mywyd i, Fy Ffordd i

Pafiliwn Cydwladol Brenhinol Llangollen

21 Gorffennaf 2011, 11am

- **Ydych chi'n teimlo weithiau bod bywyd yn pasio heibio i chi?**
- **Ydych chi'n teimlo y gallech chi wneud mwy?**
- **Fyddech chi'n hoffi cael mwy o reolaeth dros eich bywyd?**
- **Fyddech chi'n hoffi cael yr hyder i "fynd allan a gwneud" yr hyn sy'n mynd â'ch bryd? Fyddech chi'n hoffi canfod y chi Newydd?**
- **Fyddech chi'n hoffi cael cymorth â chyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli neu gyflogaeth?**

Os ydych chi wedi ateb 'YDW' neu 'BYDDWN' i'r cwestiynau hyn yna dewch draw i Bafiliwn Cydwladol Llangollen i weld be sydd gan "Fy Mywyd i, Fy Ffordd i" i'w gynnig

Cyfle i ganfod sut y medrwch chi newid eich ffordd o fyw er gwell, fel y gwnaeth pobl eraill!

Os hoffech ddod i'r digwyddiad hwn ffoniwch
Vicky Hoban neu Sandra Jones ar 01745 334976

Helpu Cymru i lehau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad i'ch dyddiadur

www.cymru.gov.uk

Pryd a ble

Dydd Mawrth 5 Gorffennaf:
Caerfyrddin, Gwesty'r Ivy Bush Royal

Dydd Mercher 6 Gorffennaf:
Casnewydd, Canolfan Christchurch

Dydd Mercher 13 Gorffennaf:
Llandrindod, y Pafiliwn

Dydd Iau 14 Gorffennaf:
y Rhyl, Neuadd Marfa

Y gost

£12 y pen
(i gynnwys cinio bwffe)

Helpu'r gymuned i ymdopi ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn effeithio ar Gymru a disgwylir i'r effeithiau waethygu dros amser. Mae angen i ni ddechrau ymbaratoi ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau undydd i ddatblygu dealltwriaeth o sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar gymunedau yng Nghymru a râl y trydydd sector i helpu i ymdopi â nhw.

Bydd y digwyddiadau'n cynnig:

- sesiynau rhyngweithiol i ymchwilio i effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd
- cyfleyniadau a gwybodaeth gan y rheini sydd eisoes wedi cymryd camau yn hyn o beth
- gweithdai ynghylch paratoi ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd mewn pedwar maes: iechyd a gofal cymdeithasol, tai, grwpiau agored i niwed a grwpiau cymunedol

Bydd cyfranogwyr:

- yn meithrin dealltwriaeth well o effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd ar eu mudiadau a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw
- yn cael cymorth a syniadau am gamau y gellid eu cymryd yn y dyfodol, gan gynnwys templed i helpu i ymgorffori effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn eu cynlluniau busnes

Pwy ddylai fod yno?

- Pob un o fudiadau'r trydydd sector, gan gynnwys mudiadau nad ydynt yn ymwneud â'r amgylchedd.

The events are particularly relevant to organisations that offer services to marginalised or disadvantaged groups that are most vulnerable to climate change i.e. older people, disabled people, children and young people, refugee groups and people living in poverty.

Archebu'ch lle

Ewch i: www.tinyurl.com/wcva-policy-policyevents
new cysylltwch â Sarah Baker drwy policy@wcva.org.uk
neu ar 0800 2888 329
Dyddiad olaf: 24 Mehefin 2011

© Crown Copyright 2011

FFORWM ANABLEDDAU DYSGU SIR DDINBYCH

Bydd y fforwm yn cyfarfod am 'ginio a sgwrs'
Dydd Gwener
15 Gorffennaf 2011

Caffi'r Fforwm Dinbych
12- 2pm.

Os ydych yn Riant neu'n Ofalwr am aelod o'r teulu sydd ag anabledd dysgu byddai'n bleser gennym eich gwahodd i ymuno â ni.

Cysylltwch ag Alan neu Jackie ar 1824 702441 neu e.bost alan@dvsc.co.uk erbyn dydd Gwener Gorffennaf 1af i sicrhau eich lle

Dyddiadau i'ch Dyddiadur
Disgo misol y Fforwm a gynhelir ar nos Wener olaf y mis yn Neuadd y Seiri Rhyddio, Meliden 7- 10.30pm

Am fanylion pellach ynglyn â gwaith a gweithgareddau'r Fforwm cysylltwch ag unai Alan neu Jackie ar 01824 709315

Ymgyrchu - diweddariad gan John Watkin, Prif Swyddog Gweithredol CGGSDd

1. Pwyllgorau Archwiliad Cyngor Sir Ddinbych - Hyd yma ni sicrhawyd unrhyw seddau ar y pwyllgorau archwiliad lleol.

2. Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru i Ariannu'r Trydydd Sector- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi paratoi côd drafft i'r Grŵp Cyswllt Sector Gwirfoddol roi eu sylwadau arno. Mae cyfarfod i'w gynnal ar 28ain Mehefin i drafod materion gyda'r bwriad o ddod â'r ddogfen i ben o'r diwedd

3. Caffaeliad a Chomisiynu

(a)**Partneriaeth Caffaeliad Gogledd Cymru** - gorchwyl gwylio, gan nad oes unrhyw broblemau amlwg ar hyn o bryd.

(b)**Comisiynu ar y cyd** - Dechreuwyd trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych a gofynnwyd i'r eitem gael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu 2011er mwyn i ni, gyda'n gilydd, symud y mater ymlaen gan yr ymddengys fod Siroedd eraill yn llawer pellach ymlaen na Sir Ddinbych.

4. Bwrdd Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 'Rydym yn disgwyl am ganlyniadau adolygiad canol tymor Llywodraeth Cymru. Mae'r ymgynghorwyr, sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, yn siarad gydag aelodau Partneriaeth Datblygu Gwledig ar hyn o bryd. O ganlyniad i'r adolygiad 'rydym yn gobeithio bydd y rhaglen wledig yn fwy hygyrch a llai biwrocrataidd fyddai o gymorth mawr i'r Trydydd Sector a chymunedau lleol.

5. **Bwrdd Adfywiad** - 'Rydym yn parhau i ddisgwyl i glywed gan y Cyngor Sir os yw'r Trydydd Sector yn mynd i gael ymglymiad.

6. Rhyl Shopmobility - Mae'r mudiad wedi dioddef problemau ariannol difrifol oherwydd problemau yn deillio o'r gwaith atgyweirio ffordd yn Y Rhyl, sydd wrth gwrs allan o'u rheolaeth. Mae CGGSDd yn eu cynorthwyo i baratoi cyfrifon

7. Cludiant Cymunedol - 'Rydym, ers amser maith, eisiau gweld gwasanaeth cludiant cymunedol grymus, wedi'i gydlynu'n dda, yn Sir Ddinbych ac mae'n dda cael dweud ein bod, ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych a Chymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru yn cymryd yn cymryd camau positif i'r perwyl hyn. Mae nifer o gyfarfodydd wedi cymryd lle ond hyd yma nid oes unrhyw newyddion pendant i'w adrodd. 'Rydym hefyd yn paratoi argymelliadau i weithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

8. Cymorth a Theuluoedd yn Gyntaf - Y newyddion da i ddechrau - mae'r ariannu wedi'i ymestyn i 31ain Mawrth 2012. 'Nawr am y newyddion sydd ddim mor dda - bydd raid i fudiadau trydydd sector ddod o hyd i ffynonellau ariannu eraill o 1af Ebrill 2012 gan ei bod yn bur annhebygol bydd prosiectau a ariennir trwy Cymorth ar hyn o bryd yn derbyn yr un lefel o gefnogaeth gan Teuluoedd yn Gyntaf, yn wir mae'n bosib na fyddant yn derbyn unrhyw gymorth ariannol o gwbl. Felly, dyma'r amser i fudiadau trydydd sector ddechrau edrych ar eu "cynllun B" a chwilio am ffynonellau ariannol eraill os ydynt am barhau i ddarparu gwasanaethau o 1af Ebrill 2012 ymlaen. 'Rwy'n gwybod fod hyn yn mynd i fod yn newyddion pryderus iawn i rai mudiadau ond dyna yw'r sefyllfa. Yn naturiol bydd CGGSDd yma i helpu gyda cheisiadau ariannol, cynlluniau busnes ayb felly cysylltwch â ni am gymorth.

9. Grantiau Mudiadau Gwirfoddol - Yng nghyfarfod olaf y Grŵp Cyswllt Sector Gwirfoddol gofynnwyd i'r Cyngor ddileu'r toriad o 10% yn eu grant a gyda'r canlyniad y byddent yn ystyried hyn ag yn adrodd yn ôl. Byddwn yn derbyn yr ymateb ar 28ain Mehefin 2011.

Canolfan Gwirfoddoli

Am ragor o fanylion ar gyfleodd neu faterion gwirfoddoli cysylltwch â Gaynor yn Rhuthun ar 01824 702441 /Gerry yn swyddfa'r Rhyl ar 01745 369973

Gwasanaeth Etifeddiaeth Sir Ddinbych angen Gwirfoddolwyr ar frys – Arddangosfa Rhannu Trysorau

O ddydd Llun 13eg Mehefin i ddydd Mercher 31ain Awst cynhelir arddangosfa archaeolegol symudol yn Amgueddfa'r Rhyl. Mae angen gwirfoddolwyr i warchod y trysorau (fydd mewn casys diogelwch uchel) rhannu taflenni eglurhad a rhyngweithio â'r cyhoedd.

Os ydych dros 18 ag â diddordeb cysylltwch â Gaynor Jones ar 01824 702441 neu e.bost:gaynor@dvsc.co.uk

'Rydym ni yng **Nghanolfan Gwarchod Adar a Bywyd Gwyllt Sir Ddinbych (Denbighshire Wildlife and Avian Rescue Centre)** yn chwilio am bobl sy'n caru bywyd gwyllt ag yn dymuno chwarae rhan i sefydlu grŵp cyfansoddiadol. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud ceisiadau am arian sydd ei angen yn ddirfawr.

Mae'r ganolfan wedi bod yn gweithredu am bron i 2 flynedd ac mae'r gwaith wedi'i wneud gydag ychydig iawn o ariannu ond erbyn hyn mae'n rhaid i ni godi lefel y gwaith er mwyn cael milfeddygon i weithio gyda ni ag i gyflogi nyrs filfeddygol rhan amser. Mae hyn i gyd yn mynd i gostio.

Os na fedrwn sefydlu grwp a sicrhau arian gallai olygu bydd raid i ni gau'r ganolfan er bod gwir angen yr adnodd. Edrychwch ar ein gwefan http://www.denbighshire-avian-rescue-centre.com drescue@live.co.uk 01745 530056 neu 07866961923

Gwirfoddolwr Ifanc yn Sir Ddinbych Osian Williams yn derbyn ei wobr efydd gan Cyng Bob Lube, Dirprwy Faer Llangollen. Bu Osian, s'n aelod o Fand Arian Llangollen, hefyd yn fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd Abertawe. Enillodd wobr gyntaf yn yr adran pres unigol. Llongyfarchiadau calonnog i Osian.

Osian a'r Cyng Lube, gyda Mia Thomas a dderbyniodd Wobr Rhagoriaeth Gwirfoddolwyr y Mileniwm gan Ken Skates AC De Clwyd.

CHILDLINE

ANGEN GWIRFODDOLWYR AR FRYS

Yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu plant a phobl ifanc sy'n cysylltu â ChildLine Bydd hyfforddiant llawn ar gael i bob swydd wirfoddol.
Cynhelir cyfarfod gwybodaeth ar ddydd Iau olaf o bob mis yn:
Tŷ Warren, Rhodfa Warren, Prestatyn

Am fanylion pellach ar swyddi gwirfoddol gyda ChildLine ewch i wefan NSPCC www.nspcc.org neu cysylltwch â'r Ganolfan Gwirfoddoli

DATHLU WYTHNOS GWIRFODDOLWYR 2011

Dydd Mercher 8fed Mehefin, daeth dros 70 o Wirfoddolwyr ynghyd i'w tywys o amgylch Gorsaf Bad Achub Y Rhyl. I ddilyn aeth pawb ymlaen i'r Pafiliwn i gael cinio bwffe ag i orffen y diwrnod o ddathlu cyflwynodd y Cynghorydd Bill Cowie, Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, dystysgrifau i gydnabod , a diolch yn fawr iawn i'r Gwirfoddolwyr am eu gwaith clodwiw.

Dywedodd Gaynor Jones, Trefnydd y Ganolfan Gwirfoddoli "Trefnwyd y digwyddiad gan Ganolfan Gwirfoddoli CGGSDd fel arwydd o'n gwerthfawrogiad, ag i ddweud "Diolch yn fawr" i wirfoddolwyr am eu cyfraniad gwerthfawr a'u hymroddiad i nifer fawr o grwpiau gwirfoddol / cymunedol ar hyd a lled Sir Ddinbych".

Pen-blwydd hapus i'r Cynllun Cyfeillion Siopa

Ar Fehefin 1af 2011 ymgasglodd criw o Gyfeillion Siopa hen a newydd i ddathlu ail ben-blwydd y cynllun yn siop Sainsbury's Y Rhyl.

Dywedodd Gerry Frobisher, cydlynydd y cynllun "Lansiwyd y cynllun ddwy flynedd yn ôl ag o'r diwrnod cyntaf mae llawer o gwsmeriaid wedi cael help i siopa. Mae'r gwirfoddolwyr wedi mynd o amgylch y siop i helpu i ddarllen labeli, estyn i fyny i silffoedd uchel a phlygu i lawr i silffoedd isel i gyrraedd nwyddau, gwthio troliau, helpu i lenwi bagiau a bod o amgylch y siop pan fo eu hangen. Hoffwn ddiolch i Sainsbury's am barhau i gefnogi'r cynllun ag am roi cacen pen-blwydd i ni ddathlu'r achlysur pwysig yma".

CANOLFAN NAYLOR LEYLAND RHUTHUN

Hurio Ystafelloedd

YSTAFELL GYNHADLEDD
(i hyd at 60 o bobl - ar ffurf theatr)

YSTAFELL BWYLLGOR FECHAN
(i hyd at 10 o bobl)

CYRSIAU HYFFORDDIANT

SEMINARAU

CYFARFODYDD

GWEITHDAI

Cost hurio ystafelloedd o £15 y sesiwn

I gael manylion llawn ynglyn â chostau ag argaeledd cysylltwch ag unai

Bronwen Isaac neu Carys Edwards

Ffôn: **01824 702441**

Ebost: **office@dvsc.co.uk**

Hefyd ar gael ar gyfer huriadau sector breifat

- **Man cyfarfod hollol hygyrch**
- **Maes parcio bychan**
- **Lifft**
- **Sustem Loop Intergral**
- **Cegin**

Er eich cyfleuster gellir trefnu'r canlynol ymlaen llaw:

- **Adnoddau cyfieithu**
- **Adnoddau clyweled**
- **Lluniaeth**

Gostyngiadau Sylweddol i Aeloadau

CANOLFAN NAYLOR LEYLAND
Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 1AF
www.dvsc.co.uk

Derek Vaughan ASE
yn eich gwahodd i lansiad ei gyfeirlyfr Arian Ewropeaidd i Gymru

A ydych yn Fudiad Gwirfoddol neu Grŵp Cymunedol sydd â syniad prosiect cyffrous? Darganfyddwch fwy am gyfleoedd ariannu Ewropeaidd sydd efallai ar gael i'ch mudiad

TECHNIUM OPTIC
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
LL17 0JD

Dydd Gwener 22ain Gorffennaf
10.30am – 12.00 pm
Cysylltwch â Swyddfa Gogledd Cymru Derek Vaughan drwy e.bost
linda.pierce@derekvaughanmep.org.uk

Llundain 2012
Cyfnewid y Fflam Olympaidd

Rhoi cyfle i rywun ddisgleirio. Ydych chi'n adnabod rhywun sy wir yn gallu ysbrydoli eraill? Rhywun sy'n wastad yn ymdrechu i wneud ei orau glas? Rydym yn chwilio am 8,000 o Gludwyr y Fflam i fynd â'r Fflam Olympaidd ledled Prydain yn ystod Cyfnewid y Fflam Olympaidd yn 2012. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n wirioneddol anhygoel, y bydd eu straeon personol yn ysbrydoli miliynau: o'u cymunedau lleol i'r rhai sy'n gwylio ar draws y byd. Rydym angen eich cymorth chi i ddod o hyd iddynt. Enwebwch rywun rydych chi'n ei adnabod i fod yn Gludydd
Fflam Llundain 2012 Cyfnewid y Fflam Olympaidd
19 Mai – 27 Gorffennaf 2012
Mae enwebiadau'n cau ar
29 Mehefin 2011**Rhagor o wybodaeth ar: london2012.com/olympictorchrelay**

DATHLIAD DEUDDYDD O IAITH, LLEFERYDD A CHYFATHREBIAD YNG NGOGLEDD CYMRU

21ain & 22ain Medi, 2011.
Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

Mae'r digwyddiad partneriaeth deuddydd hwn ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebiad arbennig (SLCN), rhieni, arweinwyr meithrinfeydd a chylchoedd chwarae, SENCOs ag athrawon, ymwelwyr iechyd, therapyddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, comisiynwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio â SLCN.
Am fanylion pellach neu i sicrhau lle cysylltwch â
andrew@afasiccymru.org.uk
Nodwch, ni fyddwn yn codi tâl am y digwyddiad, ond gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad i AFASIC Cymru.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Cymorth i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd

Bydd y rownd nesaf o ddigwyddiadau polisi rhanbarthol WCVA yn canolbwyntio ar sut y gall cymunedau a mudiadau baratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Cyflwynir sesiynau'r bore ar y cyd â'r Rhwydweithiau Dyfodol Cynaliadwy.

Yn sgil cyhoeddi rhagolygon hinsawdd newydd y DU yn 2009, mae'n amlwg bod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn debygol o fod yn bwysig iawn i Gymru ac i'r DU wrth inni ddynesu at ganol yr unfed ganrif ar hugain. Gallwn ddisgwyl:

- tymereddau uwch ledled y DU gyda mwy o gynhesu yn yr haf nag yn y gaeaf;
- mwy o law yn y gaeaf a hafau sychach mewn rhannau helaeth o'r wlad;
- lefel y môr yn codi, yn enwedig yn ne'r wlad.

Ar hyn o bryd dyddiau cynnar yw hi o hyd o ran ein dealltwriaeth o ganlyniadau newid yn yr hinsawdd yng nghyswllt pobl sy'n byw yng Nghymru, a'r trydydd sector. Mae angen i ni ystyried dylanwad effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol newid yn yr hinsawdd a chanlyniadau pob un yn y tymor byr a'r tymor hir er mwyn ymateb yn effeithiol.

Mae gwytnwch cymunedau a'r gallu i newid er mwyn wynebu'r heriau hyn a mynd i'r afael â materion tegwch mewn ymatebion ar gyfer y dyfodol yn allweddol i sicrhau nad yw rhai grwpiau yn dioddef effeithiau negyddol anghymesur. Mae angen i'r trydydd sector ystyried sut y bydd ei fuddiolwyr yn ymdopi â'r heriau newydd hyn.

Gan fod ansicrwydd mawr, mae'n bwysig iawn ein bod yn dechrau meithrin gwytnwch ein mudiadau a'n cymunedau er mwyn gallu ffynnu o'r newydd ynghynt. Mae angen i ni sicrhau cadernid, yn enwedig yng nghyswllt cefnogi pobl sydd eisoes wedi'u hymyleiddio. Gall addasu i newid yn yr hinsawdd hefyd gynnig cyfleoedd i ni a'n helpu i adfywio ein cymunedau.

Er mwyn cynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd hyn, bydd rownd digwyddiadau polisi Gorffennaf yn cynnig diwrnod lle trafodir sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein cymunedau, a sut bod gan y trydydd sector rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o feithrin cadernid er mwyn ymdopi â'r newidiadau hyn. Bydd gan gyfranogion ddealltwriaeth well o'r hyn y mae newid yn yr hinsawdd yn ei olygu i'w mudiad a'u buddiolwyr nhw yn sgil y diwrnod hwn, ynghyd â set benodol o weithgareddau ar gyfer eu mudiad a fydd yn eu helpu i ymgorffori newid yn yr hinsawdd yn eu cynllunio.

Mae'r gweithgareddau polisi rhanbarthol hyn yn berthnasol i holl fudiadau'r trydydd sector, yn enwedig y rhai hynny sy'n cynnig gwasanaethau i grwpiau sydd eisoes wedi'u hymyleiddio ac o dan anfantais ac sydd fwyaf agored i niwed yng nghyswllt newid yn yr hinsawdd, megis pobl hŷn, pobl anabl a phobl sy'n byw mewn tlodi. Mae hefyd yn berthnasol i fudiadau yn y trydydd sector sy'n cynnig gwasanaethau a gaiff eu heffeithio gan y newid ym mhatrwm y tywydd, er enghraifft, mudiadau gofal cymdeithasol ac iechyd a chymdeithasau tai.

Cynhelir y digwyddiadau polisi rhanbarthol yng Nghaerfyrddin ar 5 Gorffennaf, Casnewydd ar 6 Gorffennaf, Llandrindod ar 13 Gorffennaf a'r Rhyl ar 14 Gorffennaf. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.tinyurl.com/wcva-policy-policyevents neu cysylltwch â Sarah Baker yn policy@wcva.org.uk.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae'r enwebiadau ar gyfer y gwobrau ymgyrchu wedi dechrau

Mae'r rownd pleidleisio yn awr ar agor ar gyfer rhaglen wobrwyo a sefydlwyd i anrhydeddu ymgyrchwyr eithriadol ar lawr gwlad.

Mae naw categori enwebu yng Ngwobrau Ymgyrchwyr Sefydliad Sheila McKechnie 2011 - Gweithredu ar ran Defnyddwyr, Yr Amgylchedd, Ymgyrchydd Rhyngwladol, Ymgyrchydd Lleol, Cyfiawnder Cymdeithasol Llundain, Cyfiawnder Cymdeithasol ac Economaidd, Gweithredwch, Trafnidiaeth a Bloeddiwch - gwobr ar gyfer ymgyrchwyr 14-18 oed yn Llundain.

Mae'r gwobrau ar gyfer unigolion sydd newydd ddechrau ymgyrchu neu sy'n gweithredu heb fawr o adnoddau ac eto sy'n dangos angerdd, dycnwch a'r potensial i greu newid - yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

Mae'r Sefydliad yn trefnu rhaglenni ar gyfer unigolion a grwpiau gan ddarparu cymorth, cyngor a lle i rannu gwybodaeth am feysydd ymgyrchu effeithiol: o strategaeth, tactegau a thargedau i werthuso ymgyrchoedd llwyddiannus.

Bydd enillwyr y gwobrau'n derbyn pecyn cymorth pwrpasol ar gyfer eu hymgyrchoedd sy'n cynnwys hyfforddiant un-i-un gan ymgyrchwyr profiadol, penwythnos preswyl ar gyfer meithrin sgiliau, hyfforddiant ar y cyfryngau a materion cyhoeddus a sesiynau mentora gydag arbenigwyr yn eu meysydd.

Gallwch bleidleisio ar gyfer Gwobrau Ymgyrchwyr Sefydliad Sheila McKechnie nawr. Enwebwch ymgyrchydd yn www.smk.org.uk/nominate-a-campaigner. Y dyddiad olaf ar gyfer pleidleisio yw 20 Mehefin.

Y Comisiwn Elusennau yn diweddaru ei 'becyn i ymddiriedolwyr'

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi trydedd bennod *Diogelu elusennau rhag niwed*, ei becyn cydymffurfio ar-lein ar gyfer ymddiriedolwyr elusennau.

Mae'r pecyn, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r trydydd sector, yn arweiniad i ymddiriedolwyr, gan roi arweiniad ymarferol iddynt i'w helpu i reoli risg a diogelu eu helusen a'u heiddo rhag niwed. Mae gan ymddiriedolwyr ddyletswydd gyfreithiol a chyfrifoldeb o dan y gyfraith elusennau i ddiogelu arian ac eiddo eu helusen er mwyn iddynt gael eu defnyddio er lles buddiolwyr. Mae'r arweiniad yn y fersiwn diweddaraf o'r pecyn yn rhoi sylw i rai o'r mathau o dwyll a throseddau ariannol y mae elusennau yn agored iddynt ac yn rhoi arweiniad ymarferol ar sut i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Mae'r arweiniad hefyd yn rhoi sylw i'r arwyddion sy'n rhoi rhybudd o dwyll, gwyngalchu arian a chamymddwyn ariannol arall, yn esbonio rôl y Comisiwn yn delio gyda thwyll ac yn cynnig cyngor ymarferol ar fesurau atal twyll. Mae'r bennod newydd hefyd yn darparu gwybodaeth effeithiol mewn cysylltiad â thwyll fod yn angenrheidiol, a sut i roi cynllun o'r fath ar waith.

Dywedodd Anna Lewis, Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol WCVA: 'Mae'r pecyn hwn yn rhoi arweiniad clir i ymddiriedolwyr i'w gwneud yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i osgoi'r mathau o dwyll y mae elusennau yn agored iddynt. Mae defnyddio astudiaethau achos go iawn sy'n dangos beth sy'n gallu mynd o'i le yn ffordd effeithiol iawn o bwysleisio pam y mae angen i'r rheini sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol fod ar eu gwyliadwriaeth.'

Roed penodau cyntaf Diogelu elusennau rhag niwed yn delio ag elusennau a therfysgaeth, a diwydrwydd dyladwy a monitro. Bydd pennod olaf y pecyn, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y man, yn rhoi cyngor am gadw, trosglwyddo a derbyn arian yn ddiogel mewn cyd-destun rhyngwladol. Gellir gweld y bennod newydd ar wefan y Comisiwn Elusennau www.charitycommission.gov.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru